Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 11eg Mawrth, 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.40pm

Presennol: Y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater,
y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Christopher Parish,
y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Julia Jones,
Mr Christopher Plummer, y Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, y Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau: Y Maer y Cyng Edward Thomas, y Cyng Hugh Towns, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Ros Bellamy, Clerc y Dref

Cof 285 / Mawrth / 09 Cyfrifon i'w talu.

WCVA (cyflogau Chwefror 2009)	£ 167.85
WCVA (Gweinyddiaeth Chwefror 2009)	£ 34.79

Derbyniwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 286 / Mawrth /09 Ni dderbyniwyd unrhyw Incwm yn Chwefror 2009

Cof 287 / Mawrth / 09 Balansau'r Cyfrifon

Cafodd yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor ei gofnodi a'i **Dderbyn**

CYFRIF CYFREDOL CTLl	(28.2.09)	£ 6,854.82
CYFRIF CADW CTLl	(27.12.08.)	£ 37,141.60
Cyfrif Treuliau'r Maer CTLl	(20.2.09)	£ 1,637.17

Cof 288 / Mawrth / 09 Materion Ariannol Eraill

1. Adolygu Lefelau Benthyg
   Roedd y Swyddog Cyllid wedi cysylltu â'r PWLB parthed y benthyciadau dyledus. Yn dilyn trafodaeth cynigwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins na fyddai'n ddoeth talu unrhyw symiau ychwanegol er mwyn lleihau'r lefelau presennol o ddyled ar hyn o bryd. Roedd pawb o blaid.

2. Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
   Roedd y Swyddog Cyllid wedi cynhyrchu Rhagolwg Cyllideb 3 blynedd. Cytunodd y Cynghorwyr i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r rhagolygon.

3. Cofrestr Asedau Sefydlog Mawrth 2009
   Dosbarthodd y Swyddog Cyllid daenlen o asedau sefydlog 2008. Byddai'r Cyng Colin Jenkins ar y cyd â'r Swyddog Technegol yn cynnal archwiliadau i ddiweddaru'r gofrestr erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4. Asesiad Risg a Rheolaeth Ariannol 2008
   Rhoddodd Mr Plummer adroddiad ar yr asesiad risg ariannol a wnaed. Cynigodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid argymell derbyn yr adroddiad i'r Cyngor llawn. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

5. Gofynnodd y Swyddog Cyllid os gallai'r Swyddog Technegol gael ei dalu am yr oriau ychwanegol a weithiwyd ganddo dros yr ychydig fisoedd diweddar. Cynigwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid talu Mr Davies am yr oriau ychwanegol hyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 289 / Mawrth 09 Gohebiaeth sy'n gysylltiedig â Chyllid

1. Cais am gymorth ariannol - Y Lloffwr.
   Cynigwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater rhoi rhodd o £100 i Y Lloffwr. Roedd pawb o blaid.

Cof 290 / Mawrth / 09 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd y Swyddog Technegol ei fod wedi archwilio'r cyflenwad trydan a ddefnyddiwyd ar gyfer llifoleuo Eglwys Teilo Sant. Cynigwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid talu'r Eglwys £288.61 yn lle cost y trydan. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 291 / Mawrth / 09 Nid oedd unrhyw faterion eraill

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm